Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 14. Rhif 4.] EBRILL, 1914. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ymson y Myfyriwr.

Yr Hen Lwybrau. Anthropos.

Y Drysorfa Gynorthwyol.

Petr a Cornelius. R.J.J.

Ymweliad a Canada a'r Unol Dalaethau. Parch. E. Ceredig Jones, M.A.

Cymeriad Iolo Morganwg.

Marwgofion.

Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis ; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, **Mr. J. D. LEWIS,** Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

J. T., Lerpwl.

'Crwth Dyffryn Clettwr'

PRIS (LLIAN) 2/-. CLUDIAD 2g. Y COPI.

Ychydig Gopiau heb eu gwerthu.

'Gwaith Iolo Morganwg'

Dan olygiaeth Cadrawd.

Y rhan fwyaf wedi ei godi o lawysgrifau Iolo yn Llanofer.

PRIS 1/3.

I'w cael o—

Swyddfa yr "Ymofynydd"

LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1914. [CYF. XIV. RHIF 4.

YMSON Y MYFYRIWR.

YMAE crefydd yn ei hallanolion, neu yn ei chredoau, a'i defodau, a'i sefydliadau, yn anmherffaith. Y mae credoau yn heneiddio, ac yn cael eu gordyfu gan feddyliau gwell. Y mae defodau, yn nghwrs amser, yn tueddu i ddod yn ddiystyr a di-amcan, fel y mae yn angenrheidiol cael rhywbeth amgenach yn eu lle. Ac y mae sefydliadau crefyddol yn fynych yn colli pob bywyd. Y mae hyn yn hollol naturiol; oherwydd y mae gwybodaeth ddynol o hyd yn eangu, a rhaid i'r ffurfiau allanol, trwy y rhai y rhoddir mynegiad i'r wybodaeth well hon, gael eu gwneyd yn gyfryngau addas, teilwng o honi. Ni ddylid gosod gwin newydd mewn hen gostrelau; rhaid cael rhai newydd o hyd, fel y bydd eu heisieu.

UN O DDIFFYGION YR EGLWYS GRISTIONOGOL

drwy ei hanes yw y methiant i gydnabod y ffaith hon. Gosodir credoau i fyny ganddi, a dywed—"Hyd yma, a dim yn mhellach." Fe'i hystyrir yn rhyfyg i ychwanegu dim attynt, neu i dynu dim oddiwrthynt. Y mae yr un fath gyda defodau a sefydliadau. A dyna sydd yn cyfrif fod yr Eglwys Gristionogol wedi bod, drwy holl gwrs ei hanes, yn wrthwynebol i bob cynnydd—ei bod wedi gosod i fyny safonau arhosol mewn credo, a defod, a sefydliad, wrth y rhai y dylid glynu drwy deg a garw. Oherwydd yr olwg gamsyniol hon, tuedd yr Eglwys Gristionogol yw aros yn yr un man o hyd; tra y mae'r byd oddiallan yn symud yn mlaen at wirioneddau perffeithiach a delfrydau uwch. Nid dyna fel y dylai fod—dylai'r Eglwys Gristionogol fod, nid yn rhwystr ar ffordd cynydd, ond yn flaenaf yn y rheng; a'i chenadwri ddigyfnewid ddylai fod—"Dringwch i fyny yma," ac nid "arhoswch yn y fan lle'r ydych," oherwydd chwiliwr am y gwir yw dyn i fod; chwiliwr am oleuni perffeithiach ar egwyddorion a gwirioneddau sylfaenol crefydd.

PWNC MAWR CREFYDD,

o gylch yr hwn y mae pob pwnc arall yn troi, yw—beth yw natur y berthynas iawn rhwng Duw a dyn? A dylai pob dyn atteb y gofyniad hwn, nid yn ngoleuni credoau sefydlog, ond yn ngoleuni ei wybodaeth oreu ef ei hun. Dywedwn ni, mai yn Iesu a'i addysg y cawn ni yr atteb goreu, llawnaf, mwyaf boddhaol, i'r gofyniad hwn. A chredaf fod hyn yn wir, ie, yn ddiamheuol wir, i'm tyb i. Dim ond rhagfarn ddall fedr rwystro dyn i gydnabod hyn. Ond etto, ni fyddwn ni ddim gwell o gydnabod hyn os na fyddwn ni yn gallu gweled—yn gallu deall—gwir a chyflawn ystyr yr atteb; os na fydd yr atteb yn cymhell ei hun i'n sylw gyda'r fath nerth apeliadol fel ag i beri i ni i ddyweyd—dyna'r unig atteb a'm boddlona i; os na fydd yr atteb a roddwyd ganddo ef wedi tori ar ein heneidiau ni yn weledigaeth eglur. Ac i hyn y dylai'r hwn sydd am ddod i'r iawn berthynas a Duw roi ei sylw blaenaf—i feddu gweledigaeth eglur ar natur y berthynas, a'r ffordd oreu i'w sylweddoli.

Beth Ddywed Iesu

ar y mater hwn? Desgrifir y berthynas hon ganddo fel yr un a'r berthynas rhwng y tad a'i blentyn. Y mae hyn yn iawn. Dyna natur y berthynas fel ei desgrifir yn y Tair Efengyl gyntaf. Ond fy nheimlad i ydyw fod rhywbeth yn ddiffygiol, yn anfoddhaol, yn anigonol yn yr ateb hwn. Nid yw yn ateb sydd yn dwyn Duw a dyn yn ddigon agos at eu gilydd. Y mae swn rhyw gymaint o ddieithrwch neu o bellder yn y geiriau "tad" a "mab." Dyna'r teimlad, yn debygol, a berai i Theodore Parker i anerch y Bod Dwyfol yn ei weddiau fel "Ein Tad a'n Mam." Er gwneyd i fyny'r diffyg rhaid i ni droi i'r

Bedwerydd Efengyl.

Ni allaf ddyweyd pa faint o bwys ellir roi ar y bedwerydd Efengyl fel hanes. Y mae yn bosibl na ellir gosod pwys mawr arni fel hanes ar gyfrif y ffaith fod cymaint o amser rhwng adeg bywyd Iesu a'r amser yr ysgrifenwyd hi—yn agos i ganrif, yn ol pob tebyg. Nid ei hanes, fodd bynag, sydd yn ei gwneyd yn bwysig i ni, ond yn hytrach yr olwg lawnach, mwy boddhaol, rydd i ni ar y berthynas iawn rhwng dyn yn ei fan goreu a Duw. Beth yw'r olwg lawnach hon? Dim llai na hyn—undeb hanfodol y natur ddwyfol a'r natur ddynol. "Fel y byddont oll yn un," medd Iesu, "megis yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti; fel y byddont hwythau un ynom ni."

Dyna un o Feddylddrychau Nodweddiadol

y bedwerydd Efengyl. Fe'i cawn yn adnodau cyntaf yr Efengyl: Duw yn Iesu o Nazareth. O wirionedd hyn yr wyf yn gyflwyr argyhoeddedig. Nid oes ynof rith o amheuaeth nad oedd Duw yn

Iesu; ie, nid yn unig yn Iesu ond yn mhob dyn tebyg iddo. Mewn geiriau ereill, y mae ymgnawdoliad, nid yn rhywbeth eithriadol, cyfyngedig i un person—Iesu o Nazareth, ond yn ffaith gyffredinol. Y mae Duw wedi rhoi cyfran o'i natur ef mewn corph o gnawd. I'r gyfran hon perthyn adnoddau ydynt addas i ddatblygiad. Fel y maent yn cael eu datblygu, y mae eu perchenog—dyn—yn ymdebygoli i'r Bod dwyfol mewn perffeithrwydd. A phan ddaw'r ymdebygoliad hwn i'r safle uchel y'i cawn yn Iesu, y mae Duw a dyn yn un—yn un fel yr oedd Iesu ac Ef yn un.

Beth Gwerth yw'r Fath Feddwl

a hwn, meddech. Y mae yn anrhaethol werthfawr—yn yr ystyr hwn, yn ei fod yn llwyr weddnewid arolwg dyn am y bywyd dynol. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y meddwl am ddyn fel abwydyn gwael, diflanol, amserol, a'r meddwl am dano fel un wedi ei fwriadu neu ei arfaethu i esgyn i'r undeb a Duw a sylweddolwyd gan Iesu. Y mae'r dyn a gred yn yr olwg olaf hon ar fywyd dyn yn wastadol yn ei chlywed yn ei anog "i ddringo i fyny." Dyma genadwri Efengyl Iesu fel ei desgrifir yn y bedwerydd Efengyl, ac nid oes yr un enaid o ddyn nad oes arno ei hangen.

Myfyriwr.

YR HEN LWYBRAU.

Gan Anthropos.

I.

NAWN heulog; awel adfywiol, hoenus—rhagredegydd dyddiau'r gwanwyn mwyn! Y mae anian wedi ymlonyddu wedi'r ystormydd blinion, ac, yn raddol, y mae dyn yn medru d'od i'r cywair newydd. Hudir ni i syllu ar yr olygfa; yr ydym wedi newid hinsawdd, am dro, ond erys swn y storm fel adlais yn ein clustiau o hyd. Fel yna yr wyf wedi treulio awr neu ddwy, yn syllu ar dawelwch y fro, a'r gweddnewidiad sydd yn graddol ymestyn dros ddol a llwyn. Dywedir ein bod yn byw mewn cyfnod sydd yn creu hanes; yn rhoddi bod i bethau pwysig a phell-gyrhaeddol. Felly yn wleidyddol a chymdeithasol. Ac y mae natur, yn ei ffordd dawel, yn 'gwneyd hanes,' a chyfnewidiadau mawrion yn cael eu dwyn oddiamgylch. Meddylier am y gallu aruthrol sydd ar waith—yn

gwisgo'r coedwigoedd a dail newydd, yn galw allan fil myrdd o flodau a llysiau, ac yn adnewyddu wyneb y ddaear. Nis gallwn ei amgyffred na'i ddeffinio.

"Ei gwanwyn sydd fel adgyfodiad i mi,"

meddai Islwyn. A gogoneddus ydyw hwnnw yn mhob man. Y mae yn agor beddau cudd, ac yn dweyd wrth y blodau a'r glaswellt, 'Deuwch allan.' Y maent hwythau yn ufuddhau, ac yn ymddangos yn llu mawr iawn. Yr ydym wedi bod yn dystion o'r olygfa lawer gwaith; o'r braidd y gallwn gofio y gwanwyn cyntaf y daethom i sylweddoli y 'newydd wyrth' yn nghylchoedd anian, ac i deimlo y dylanwad ynom ein hunain. Yn mha le yr oeddym pan glywsom ddeunod y gog; neu pan welsom y briallu am y waith gyntaf? Gallwn adgofio y llanerchau a gerddem yn mlwyddi cynar oes; ond y mae'r argraffiadau, fel lliwiau mewn darlun, wedi ymdoddi i'w gilydd a'r manylion wedi dianc oddiwrthym.

II.

Ond, a ydyw dyfodiad y pethau hynaws, a byth-newydd hyn yn apelio atom fel cynt? A ydyw ein llygaid yn gwynfydu arnynt, a'n clustiau yn agored i glywed y melodi cyfareddol? Os felly, gwyn ein byd! Y mae ysbryd maboed yn aros ynom, a'n calon heb oeri dan ddylanwadau materol a diswyn—

"And then my heart with rapture fills
And dances with the daffodils."

Felly y dylai fod. Ac y mae diwrnod fel hwn yn fath o 'arbrawf' i'r sawl a fynnai wybod hanes ei feddwl, a'i ymwybyddiaeth ei hun.

III,

Ewch am dro i'r wlad; y mae haul y prydnawn yn taenu gogoniant ar bob llaw. A ydych yn clywed cân yr aderyn acw ar frigyn uwcha'r pren? A demtir chwi i sefyll am enyd i wrando y cantor per ei ddawn? A ydyw y blodyn yna sydd newydd agor ei lygad ar y darlun yn ennyn rhyw deimladau anelwig yn eich mynwes? Ai ynte, myn'd 'am dro' o gydwybod yr ydych gan gredu fod y peth yn llesol i iechyd, yn hytrach nag aros rhwng muriau ystafelloedd, drwy gydol y dydd. Y mae ystyriaethau felly yn bod, a da yw cydffurfio a deddfau iechyd. Ond, ai dyna'r oll? Onid ydyw swyn anian, ar ddydd ei hadgyfodiad, yn eich llanw a rhyw nwyfiant a llawenydd?

IV.

Onid priodol ydyw diolch fod genym lygaid i weled, a chlustiau i glywed, ar y fath adeg?—fel y gallom fod mewn cymundeb a'r byd

prydferth sydd yn cael ei greu o newydd. Y mae llawer o wir ac o dynerwch yn nghanig Tom Hood—'I Remember.' Ond nid ydyw yn fynegiad o'r hyn a ddylai fod yn meddwl dyn pan yn syllu ar deleidion maes a llwyn—

"It was a childish fancy,
But now 'tis little joy,
To think I'm further off from heaven,
Than when I was a boy."

Dichon mai ffansi plentynaidd ydoedd tybied fod brigau y pinwydd yn cyrhaedd i entrych awyr—'Close against the sky.' Ond, yn sicr, nid oedd un rheswm dros i'r bardd feddwl ei fod ef ei hun yn mhellach oddiwrth y 'nef' nag ydoedd pan yn blentyn bach.

Credwn mai fel arall y dylai ein profiad fod, ac mai rhagorfraint bywyd ydyw sylweddoli fod y 'nef' yn d'od yn agosach atom, ac nid yn ymbellhau, Y mae mwy o'r 'nefol' yn y 'daearol' nag ydym wedi feddwl lawer pryd. Onid ydyw pob tlysineb yn 'borth y nef'? Ac y mae hwnnw yn ein hymyl, 'yn y lle hwn,' fel y cyffesai y pererin gynt yn Bethel, 'ond nis gwyddwn i.'

Dyna'r esboniad. Y mae yna ryw len o anwybodaeth yn gorchuddio ein llygaid, ac yr ydym yn methu canfod y 'weledigaeth nefol.' 'Llygaid sydd iddynt, ond ni welant.' A dyna un o'r barnau trymaf yn hanes dyn. Y mae pob 'gweled,' yn myd prydferthwch yn tybied ymdrech. Gellir edrych heb weled. Y mae y naill yn aneffiniol a dibwynt; y llall yn canolbwyntio ar y gwrthddrych ei hun. Dyna sydd yn troi yn adnabyddiaeth. Ac heb hynny, nid ydym ond yn y 'cyntedd allanol' pan y dylem ymwthio i'r cysegr nesaf i mewn, a diosg ein sandalau mewn gwylder a diolchgarwch.

Nid mympwy barddonol ydyw hyn: y mae gweled prydferthwch yn un o fendithion gwerthfawrocaf bywyd. Cadwer ni rhag bod yn 'ddeillion,' ac yn 'fyddariaid' yn nheml natur.

V.

Dyddorol ydyw darllen hanes y 'mudiad' sydd yn ennill poblogrwydd yn mhlith gwŷr ieuainc ein trefi a'n dinasoedd. Cyfeirio yr ydym at y 'clybiau' sydd yn cael eu ffurfio er mwyn gweled y wlad —myn'd allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau yn y gwanwyn; cerdded milldiroedd drwy ddyffrynoedd tawel a llwybrau gwledig, i fwynhau awelon iach, ac-i syllu ar anian yn ei gogoniant cynhenid—yn ei gwylltineb a'i thegwch dihalog. Y fath wledd a arlwyir o flaen eu llygaid, a'r fath olud o adgofion a drysorir ganddynt yn eu meddyliau.

VI.

Da fyddai gweled mudiad o'r fath yn nhrefi Cymru, yn nyddiau gwanwyn a haf. Y mae gormod o gyrchu i gylchoedd nad oes ynddynt unrhyw feithriniad i ymarferiadau iachusol a dyrchafedig.

Gwyn fyd na ellid perswadio ein pobl ieuainge sydd wedi dechreu ar wahanol oruchwylion beunyddiol, mewn gweithdai, masnachdai, a swyddfeydd, i gymeryd rhyw gangen o wybodaeth naturiol fel 'hobby' personol—rhywbeth fuasai yn eu denu i'r awyr agored, i'r meusydd, y bryniau, a minion afonydd, yn ystod eu dyddiau gwyl. Y mae hanes coed, adar, a blodau gwylltion, yn meddu swyn diddarfod. Rhaid astudio ambell law-lyfr a meistroli rhai pethau. Ond y mae cydnabyddiaeth bersonol a blodau'r maes, y goedwig, a glannau afonydd yn gwneyd yr efrydiaeth yn fwynhad pur. Dywed y llyfr fod blodyn arbenig yn meddu math neillduol o ddail; fod ei ffurf a'i liw fel hyn neu arall. A rhyw ddiwrnod yr ydych yn croesi o'r naill faes i'r llall, ac yn gweled y 'blodyn' hwnnw yn llechu yn nghysgod y berth. Yr ydych wedi ei 'ddarganfod' drosoch eich hun, ac yn teimlo eich bod wedi ychwanegu un cufydd at faintioli eich gwybodaeth. Deuwch i wybod am neillduolion y blodau, eu hymlyniad wrth eu cartref. Y mae gan bob un ei randir, a'i le yn mysg y llwythau. Erys yn deyrngarol i'w dylwyth, a char lechu yn y tir a'i macco.

VII.

Fel yna y mae bydoedd o wybodaeth yn agos atom. Ond rhaid myned i mewn drwy'r 'porth cyfyng' i bob teyrnas wirioneddol. Ond y mae genym arweinyddion ar bob llaw. Y mae beirdd fel Wordsworth a Tennyson yn dehongli gweledigaethau prydferthwch. Yr oeddynt wedi craffu ac wedi clustfeinio ar hyd blynyddoedd eu hoes. Ac nid ydynt un amser yn camarwain nac yn cam-leoli y golygfeydd. Ceir llawer o'r un wybodaeth am anian yn meirdd Cymru, hen a diweddar. Ond rhaid addef fod yr hen feirdd yn tra-rhagori mewn manylder a chraffder gweledigaeth, fel y dengys ysgrifau ardderchog T. Gwynn Jones yn y 'Faner.' Ond y mae defnydd y weledigaeth yn aros, a'i wledd yn cael ei darpar eleni ar fyrddau'r gwanwyn. A ydym yn awyddus i'w mwynhau? Neu, a ydyw ein harchwaeth wedi ei difwyno gan yr hyn a elwir yn 'wledd o dê a bara brith?'

EMYN PRIODAS. M. 11. 10: 11. 10.

O Gariad Perffaith, uwch pob meddwl dynol,
Mewn ymblyg isel deuwn ger dy fron;
A'n gweddi am y Cariad sy'n dragwyddol
Yn rhad i'r ddeuddyn unwyd yr awr hon.

O Berffaith Fywyd! bydd i'r ddau yn sicrwydd,
O gariad tyner a sefydlog ffydd,
O obaith siriol yn mhob math o dywydd,
A hyder mabaidd, rhydd o boen, bob dydd.

Rho iddynt hwy'r llawenydd leddfa dristwch,
A'r hedd dawela bob rhyw boen a chur;
Ac wedi treulio'u dyddiau mewn diddanwch,
Rho iddynt weled gwawr ar nefol dir.

Y DRYSORFA GYNORTHWYOL.

(*Sustentation Fund.*)

APEL AM £50,000.

CYNYG ARBENIG I GYMRU.

Y MAE bron bob Undodwr yn gwybod am yr ymdrech ganmoladwy wneir i ychwanegu at Drysorfa y *Sustentation Fund* y swm o £50,000. Y mae £46,000 eisoes wedi ei gasglu. Y mae £500 wedi ei addaw gan foneddwr ar yr amodau fod y gweddill o £4,000 yn cael eu casglu erbyn y Sulgwyn nesaf. Ac y mae boneddwr Cymreig wedi addaw £50 ar yr amodau fod Cymru yn casglu £200 yn ychwanegol at yr hyn y maent eisoes wedi ei wneud.

Gwyr pob Eglwys Undodaidd Gymreig am y caredigrwydd mawr dderbyniasant oddiwrth y Drysorfa hon yn barod, ac o dan y drefn newydd, pan fo'r cyfan wedi ei gasglu yn nghyd, medr roddi mwy o help nag o'r blaen.

Gwyddom fod rhai Eglwysi wedi casglu yn barod, ac fod ereill ar wneud, carem argraffu ar feddyliau pawb y pwysigrwydd o wneud hyny yn fuan. Dylai pob Undodwr deimlo dyddordeb personol yn yr ymdrech hon. Diau fod yna Gymry ar wasgar garent gynorthwyo yn y mudiad daionus hwn, ac os y gwnant ddanfon eu cyfran i Olygydd YR YMOFYNYDD, gofala efe am eu danfon i Drysorydd y Drysorfa newydd hon.

Mewn diolchgarwch am garedigrwydd y gorpenol, a chyda gobaith sicr am barhad y caredigrwydd hwnw yn y dyfodol, bydded i ni oll wneud yr hyn allwn, er cyfarfod yr amodau enwir uchod, er ein lles fel enwad yn Nghymru. Hyderwn y gwna Swyddogion, Blaenoriad a Gweinidogion, ein Heglwysi gymeryd y mater i'w hystyriaeth ddifrolaf.

T. ARTHUR THOMAS.

(*Ysgrifenydd y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.*)

PETR A CORNELIUS.

Yr wyf yn deall mewn gwirionedd nad ydyw Duw dderbyniwr wyneb; ond yn mhob cenedl y neb sy'n ei ofni Ef ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymeradwy ganddo Ef."—*Actau 10 : 34, 35.*

Dyna eiriau pwysig, geiriau gariant argyhoeddiad ar unwaith i feddwl pob dyn pan y clyw hwy; fel nad oes eisieu dim rhagor na'u darllen. Amcan y llinellau hyn gan hyny fydd, nid ymdrin a'r geiriau fel y cyfryw, gan fod hyny yn ddiangen, ond yn hytrach ceisio deall y rhesymau ddygodd argyhoeddiad i feddwl Petr. Fe fydd pwnc yr ymdrafodaeth, gan hyny, yn ymwneud a'r adnodau cysylltiol, y rhai y gellir eu rhanu i *bump dosparth*, neu bump darlun, lle y canfyddwn ddadleniad graddol a dyddorol o gymeriadau Petr a Cornelius.

(1) Cawn ddarlun prydferth o

GYMERIAD CORNELIUS

fel "Gwr defosiynol, ac yn ofni Duw, ynghyd a'i holl dŷ, ac yn gwneuthur llawer o elusenau i'r bobl, ac yn gweddio Duw yn wastadol." Dyna gymeriad ardderchog. Carem allu credu fod haner Cristnogion ein gwlad yn teilyngu tystiolaeth cystal—bob un fel efe yn proffesu crefydd, ac yn byw crefydd, ac yn gofalu am grefydd ei deulu. Nid y grefydd boblogaidd oedd ei grefydd, mae'n wir. Sut y gallai fod yn wahanol? Cenedl-ddyn oedd, pagan y gelwid ef heddyw, heretic, dyn oedd yn addoli Duw, eithr nid yn ol gofynion yr Iuddew; ond eto, wele *Angel Duw* yn ymweled ag ef, ac yn gorchymyn iddo anfon am Petr (1-8).

(2) Dranoeth, pan oedd y tri wŷr anfonwyd gan Cornelius yn nesau at Caesarea, y mae

PETR YN CAEL EI BAROTOI

i'w derbyn drwy weledigaeth. Tua chanol dydd, esgyna i ben y tŷ i weddio. Cwyd newyn arno, syrth i lewyg, ac yn ei lewyg, y mae'n cael gweledigaeth—llenllian fawr yn cael ei gollwng i waered hyd y ddaear, ac ynddi bob rhyw bedwar carnolion, &c. "A daeth *llef* ato, cyfod Petr, lladd a bwyta." Y mae Petr yn ymesgusodi. Wna efe ddim o hyny, hyd y nod ar gais angel, gan roddi ini enghraifft o beth yw zel. Yn y man, dyna'r tri wŷr oddiwrth Cornelius yn curo wrth y drws (9-16).

(3) Tra mae Petr mewn penbleth o barthed i'r weledigaeth, daw'r

AWGRYM AM Y TRI WYR

ato. Adroddant hwythau eu neges, a thranoeth y mae Petr yn myned gyda hwy i Caesarea, lle'r oedd Cornelius eisoes yn dysgwyl, ac wedi galw ei gyfeillion yn nghyd (17—24).

(4) Mae Petr a Cornelius yn cwrdd a'u gilydd, ac ar ol ychydig ymddiddan, dyna Petr yn adrodd

AM Y LLENLLIAN FAWR,

a'r modd y dysgodd Duw iddo na alwai neb yn gyffredin neu aflan. "O ba herwydd," meddai, "yn ddinag, y deuthum, pan y danfonwyd am danaf: yr wyf gan hyny yn gofyn am ba achos y danfonasoch am danaf." Eglurir y sefyllfa gan Cornelius (25—33).

(5) Cawn

GYFFES PETR

yn glo ar y cwbl,—y wers wedi ei derbyn a'i dysgu, a gwers ardderchog yw,—"Yr wyf yn deall mewn gwirionedd," &c. (34, 35).

Ar ol darllen yr hanes, fe gyfyd y gofyniad yn naturiol,

Beth ydyw'r Ystyr?

Nid yn gymaint beth ydyw ystyr y wers ar y diwedd; ond beth am yr angel, y llais, y weledigaeth, &c.? Onid oes yna rywbeth allan o'r cyffredin, rhyw ddirgelwch mawr? Beth yw'r esponiad? Yr ydym am ddeall; ond sut mae gwneud?

Cawn ddameg gan y doniol hwnw, y Deon Swift, yn yr hon y desgrifia'r "Coryn a'r Wenynen" yn cytuno i fyned yn gwmni ar daith gyda'u gilydd. Casgla'r Wenynen fêl o bob blodeuyn, fel y mae'n arfer gwneud; tra mae'r Coryn yn achwyn ac yn ceintach nad yw'n cael dim ond gwenwyn yn mhob man. Rhy debyg, onide, i'r modd y gwna gwahanol bersonau drin eu Beiblau. Tebyg i hyny hefyd yw awgrym y bardd—

"Hwn ydyw'r llyfr lle ceisia pob rhyw ddyn
Yr athrawiaethau gred efe ei hun;
A hwn yw'r llyfr lle ceir, O ryfedd helynt,
Yr athrawiaethau gais pob dyn am danynt."

"Chwiliwch yr Ysgrythyrau," yw'r awgrym a roddir, ac mewn ufuddddod i'r awgrym, cawn un yn tynu mêl a maeth o bob darlleniad, ac un arall fel y coryn yn y ddameg, yn rhy barod i achwyn, i feirniadu, a chwilio beiau, heb fyth wneuthur un lles iddo ei hunan na neb arall. Dywed awdwr diweddar fod

Dwy ffordd i Ddarllen y Beibl—

y ffordd hanesiol a beirniadol, a'r ffordd foesol ac ysprydol. Er yn wahanol, nid yw'r ddwy ffordd o angenrheidrwydd yn groes i'w gilydd; er y gall pob un o'r ddwy ar ei phen ei hun arwain ar gyfeiliorn—y naill i ofergoeledd ffol, a'r llall i anffyddiaeth noeth. Ein cais ddylai fod i roddi ei le priodol i ffydd yn ogystal ag i reswm, i reswm yn ogystal ag i ffydd.

Anhawsdra mawr gyda llawer yn ystod haner diweddaf y ganrif o'r blaen, yn enwedig gyda'r Gwyddonwyr, ac yn wir, gyda'r Undodiaid yn fynych oedd

Pwnc y Gwyrthiau.

Cofiwn yn dda am fechgyn ieuainc o'r Colegau, rhyw ddeugain mlynedd yn ol, yn llefaru gydag awdurdod proffeswrol ar bwnc y Gwyrthiau, ac yn taflu amheuaeth arnynt, a gwawd ar y rhai a dybient hwy eu bod yn eu credu. Ni wnaed un cais at brofi ganddynt—dim ond *sneer* yr uwchafwr a chic wrth basio. Pe gofynid am reswm, nid oedd yr un i'w gael. Pethau yn

Perthyn i oes Ofergoelus

oeddynt, tebyg i Bwnc y bwciod. Nid oedd dim o'r fath beth yn cymeryd lle yn awr, nid oeddynt hwy wedi gweled dim o'r fath beth, ac felly nid oedd dim o'r fath beth wedi digwydd erioed. Dyna fel yr ymresyment, os gellir galw y fath beth yn ymresymu. Y mae pob peth wrth reol, pob peth dan ddeddf, a chan nad yw deddf ond amlygiad o'r modd y mae Duw'n gweithredu, nid yw ond amlygiad o'i ewyllys, ac ni ddichon Duw groesi ei hunan, neu ymddwyn yn groes i'w ewyllys ei hunan.

Yn awr, cyn myned yn mhellach, yr ydym am wneuthur

Rhai Addefiadau.

Addefwn yn rhwydd nad yw Duw ddim yn ddi-ddàl fel dyn, nad yw Duw ddim yn newid ei feddwl fel dyn; ei fod "yn dwyn ei waith i ben" wrth reol, wrth ddeddf; fod pa beth bynag sydd wedi cymeryd lle yn llywodraeth Duw wedi cymeryd lle bob amser wrth reol, wrth ddeddf; ond gweddai ini gofio ar yr un pryd, nad yni dall wedi ei garcharu yn ei fydysawd yw Duw, ac

Nid Dysgyrchiant

yw ei unig ddeddf, neu ei unig ffordd o weithredu. Efe sy'n caniatau, a hyny yn ymddangosiadol yn groes i'r ddeddf hono, i'r sudd fyned i fyny i'r pren, i'r llysiau dyfu, i'r awyren godi yn yr awyr, i'r dorth siwgr wlychu i'r *top* os bydd ei gwaelod yn y dwfr, i'r llosgfynydd chwydu allan ei gynwys, ac i minau godi fy llaw.* Ni ddiddymir deddf dysgyrchiant, y mae hono yn gweithredu o hyd, ond gorchfygir hi gan ddeddf arall.

2. Addefwn y gall fod yna rai

ELFENAU CHWEDLONOL

wedi ymlusgo i fewn i'r hanes yn ystod y 50 neu'r 60 mlynedd y bu'n cael ei thraddodi o ben i ben cyn cael ei throsglwyddo i ysgrifen—math o eithafoliad ar ffaith wirioneddol; ond credwn fod yr ysgrifenwyr yn berffaith onest yn eu gwaith.

3. Addefwn yn mhellach eto y gall fod yna ambell i ddygwyddiad naturiol gyda threigliad y blynyddoedd wedi cymeryd arno agwedd eithafol. Er enghraifft, mae'n bosibl nad yw hanes Melldithiad y Ffigysbren yn Matthew ond adsain o bell o Ddameg y Ffigysbren fel yr adroddir hi gan Luc; ac nad yw Porthiad y Pum Mil o bobl â phum torth a dau bysgodyn, ond ffordd arall o osod allan y porthiad â bara ysprydol y bywyd drwy ledaeniad yr efengyl gan yr Apostolion.

4. Nid ydym yn honi fod

CREDU YN Y GWYRTHIAU

yn un o anhebgorion Bywyd Tragwyddol. Byw yn iawn, bucheddu'n iawn, sy'n ofynol i hyny, nid credu. Gall y gwyrthiau, yn naturiol, fod yn bwnc o amheuaeth i lawer, am na welant sail digonol dros eu credu. Er hyn oll nid ydym yn gweled fod sail digonol i'r gwadu haerllug wneir gan rai, ac yr ydym yn mhell o weled doethineb yr haerllugrwydd yn wyneb y ffaith nad yw'n bosibl i neb brofi gwirionedd safbwynt o'r fath. Yr oedd Theodore Parker yn fwy teg. Mae'n wir na chredai efe yn y gwyrthiau; yr oeddynt yn anhebygol yn ei olwg ef, ond nid yn anmhosibl. Da genym hefyd weled fod yspryd mwy gwylaidd yn cael ei ddangos gan rai heddyw, megys y diweddar Arthur Russell Wallace, Syr William Crookes, a Syr Oliver Lodge, tri o wyddonwyr penaf yr oes bresenol.

Ymddengys i mi fod haerllugrwydd annioddefol—haerllugrwydd yn codi oddiar anwybodaeth, feallai—y tu cefn i lawer o'r hyn ymddangosodd yn ddiweddar yn un o'r cylchgronau wythnosol. Ni wn i ddim am yr awdwr. Penawd ei ysgrif oedd—"Religion and Miracle," hyny yw, Crefydd a Gwyrth, ac fel hyn y traetha:—"Chwedl yw gwyrth. Mae deddf naturiol yn rheoli pob peth. Nid yw gwyrthiau yn rhan o hanesiaeth ddilwgr. Mae cenadwri Crist yn annibynol ar wyrthiau. Cynyrchion dyddorol dychymyg dyn yw gwyrthiau; penod yn ffug-hanes difrifol y byd; pethau posibl ar dir rhesymeg, amhosibl ar dir natur. Crefydd y gwyrthiau, allanol a bas yw. Pwnc y gwyrthiau, plentynaidd yw; dadl o natur athrofaol hollol yw. Mae'r syniad o fewnfodaeth Duw yn ei fydysawd yn tueddu mwyfwy i wneuthur gwyrthiau yn afreidiol."

Ceir, i'm tyb i, yn y dyfyniad hwn, megys yn yr Almanac Newydd, beth gwir yn gymysg a llawer sy'n amheus." "Miracle is myth"—chwedl yw gwyrth, dyna haerir. Mympwy disail, meddaf finau, sy'n gwadu gwyrth. Ffordd *cheap*, yn ddiameu, a ffordd ddidrafferth iawn yw gwadu gwyrth; ond nid yw yn ffordd broffidiol iawn; ond

BETH YW GWYRTH?

Yr wyf yn gwbl argyhoeddedig fod

---

* Meddylier am foment beth sy'n gynwysedig yn y weithred o godi llaw! Meddwl yn gweithredu ar fater.

"arwyddion a rhyfeddodau, a gweithredoedd nerthol"—dyna eiriau'r Beibl—yn cydfyned a phregethu yr Apostolion. Nid unrhyw wyrth neillduol gyfeiriaf fi ati, ond at yr egwyddor yn gyffredin. Nid oes gwyrthiau yn cymeryd lle heddyw, ebe'r gwrthwynebwyr, ac yna casglant na chymerasant le erioed. Hona eraill nad oes canrif erioed wedi pasio na welwyd gwyrthiau yn cael eu cyflawni. Yn wyneb darganfyddiadau diweddar y mae'n anhawdd gweled o ba le y cwyd un anhawsder i gredu mewn gwyrthiau. Meddylier am y Telegraff, y Telephon, yr *X Rays*, y *Wireless Telegraph*, a'r rhyfeddaf o'r oll, feallai, sef *Radium*—darganfyddiadau sydd wedi dwyn chwyldroad i fewn i'n holl ddulliau arferol o feddwl.

Ond gadawer ini afaelu'n dynach yn ein pwnc. Cawn fod rhai o brif weinidogion ein henwad ein hunain, er ys rhai blynyddau bellach, yn caniatau dilysrwydd

Y Gwyrthiau Iachaol,

gwelliantau ar y clefydau gieuol (*nervous diseases*). Y mae'n amlwg oddiwrth y lluaws llythyrau a gyhoeddwyd yn y "*British Medical Journal*," Mehefin 1910 neu 1911, nad yw'r meddygon ddim i fod yn mhell iawn ar ol yn y mater hwn. Nid ydynt mor bendant benderfynol i wadu ag y buont. Mor werthfawr y byddai ychydig bach o wyleidddra i bob dyn. Nid oes amheuaeth nad yw'r pendantrwydd yspryd sydd wedi nodweddu ein gwyddonwyr gymaint yn y gorphenol, ac wedi peri iddynt wrthod pethau y tu allan i'w profiad eu hunain, wedi bod yn rhwystr mawr i gynydd gwybodaeth. Yr oedd yr hen wraig o Aberdar, ar ddechreu'r ganrif o'r blaen, yn deall y natur ddynol yn well. Yr oedd y dyn yn glaf iawn, a'r meddygon yn methu gwneud un lles iddo, fel yr aeth yn ddigalon, a phenderfynodd anfon am yr hen wraig. Yr oedd ganddo ffydd yn yr hen wraig. Yn ddiarwybod, ddarparodd hithau iddo ychydig o *bills* bara, ac aeth i fyny ato gyda gwyneb siriol, llawn gobaith, a rhoddodd ei gorchymyn—"Hwre, cymer y rhai hyn—*a chred*!" Y mae'r dyn yn cymeryd y *pills*, ac yn parhau i wella o hyny allan.

Gan nad beth arall y mae Gwyddor yn ei wneud, nid yw yn gwneud terfyn ar ddirgelwch, nac ar yr hyn y mae'r dyn cyffredin yn ei alw yn wyrth.

Hawdd gwawdio'r *Faith Healers*, peth rhwyddaf yn y byd yw hyny, ac nid wyf yn ameu nad yw eu honiadau yn rhy fynych yn eithafol ac anymarferol, a'u bod felly yn dysgwyl gormod; ond y mae *Faith Healing* yn *natural fact*, ac fel canlyniad, y mae'r *Faith Healers* yn cynyddu mewn rhif. Addefir yn gyffredin fod ffydd yn y meddyg yn help mawr yn nghyfeiriad gwelliant, a gallwn gasglu oddiwrth y gyfres llythyron a grybwyllwyd genym eisoes, y rhai a ysgrifenwyd gan brif feddygon y dydd, fod yr hen elyniaeth yn erbyn y *Faith Healer* yn llawer llai nag y bu. Dysgwyliwn y ca'r berthynas rhwng y meddwl a'r corff mewn clefyd fwy o sylw ganddynt yn y dyfodol agos.

Dywed yr awdwr y dyfynasom o hono yn barod, fod y "syniad o Fewnfodaeth Duw yn ei fydysawd yn tueddu mwyfwy o hyd i wneuthur

Gwyrthiau yn Afreidiol."

Fe ddibyna hyny ar y peth a ddeallir wrth wyrth. Os y syniad yw, y bydd y cwbl wrth reol, wrth ddeddf, wrth natur, bydd y syniad yn un cywir; y mae wedi bod felly erioed; eithr os y syniad yw na ddigwydd dim eithriadol neu anarferol, amheuwn y syniad. Bydd yr eithriad ei hunan yn ol rheol, fodd bynag. Fe red yr awrlais yn dawel a didwrw y rhan fwyaf o'r amser, heb swn dim ond dic-dac y dringlyn; ond ar bob pen awr bydd yn taro, ac fe glywir swn mwy. Bydd y Pwll Glô gyda'i fil o weithwyr yn rhedeg yn rheolaidd ac esmwyth am flwyddyn neu ddwy, neu ragor, feallai; ond yn ddisymwth

dyna danchwa yn cymeryd lle. Fe ddigwydd y danchwa hefyd wrth ddeddf, er na fydd neb eto yn ei ddeall yn ei holl gysylltiadau.

Wrth Fewnfodaeth Duw

fe ddeallir—fod Duw yn llanw pob man a'i bresenoldeb, a phob amser a'i barhad ; neu yn ngeiriau'r Apostol Paul, ei fod "goruwch oll, a thrwy oll ac yn oll—a'i berthynas a'r bydysawd nid fel perthynas yr oriorydd a'r oriawr, ond yn fwy tebyg i berthynas bywyd a'r llysieuyn, neu berthynas enaid dyn a'i gorff, Meddylier am y corff hwn o eiddo dyn, fe ddywedir ei fod yn gyfansoddedig o ugain mil o filiynau o filiynau o gelloedd ; fod yn perthyn i bob un o'r celloedd hyny ei ymwybyddiaeth, a bod pob un o honynt yn cario yn y blaen y gorchwyl a berthyn iddo, heb fod yr un cysylltiad ymwybodol, feallai, rhwng y naill a'r llall, ac heb fod yr un dibyniad uniongyrchol ar berchen y corff, yr hwn y maent yn ei wasanaethu. Y mae organau mawrion mewnol y corff hwnw, yr ymenydd, y galon, yr ysgyfaint, yr afu, &c., yn gyffelyb, yn annibynol ar y perchen, ac yn cyflawni eu rhan hwythau o'r gwaith y mae hawddfyd a bywyd y dyn yn dibynu arnynt ; tra mae'r aelodau allanol at ei ewyllys ac at ei wasanaeth. Tebyg mai am ei gorff y meddyliai'r Psalmydd pan y dywedodd, mae

Rhyfedd ac Ofnadwy

y'n gwnaed ; ond fe berthyn i'r meddwl ryfeddodau mwy fyth. Y meddwl sydd yn rhoddi i'r corff ei werth penaf. Genir dyn i'r byd heb wybodaeth, ac wrth gwrs, heb brofiad. Ar ei enedigaeth, yn union, fe ffrydia'r byd, ei amgylchfyd, i fewn arno drwy bob porth fydd yn agored, gan gyfoethogi ei feddwl a gwybodaeth a phrofiad o flwyddyn i flwyddyn drwy ei oes ; ond nid yw yn gallu cadw'r Cwbl ar glawr ei ymwybyddiaeth. Yn debyg fel mae'r afon yn ei threigl oriwaered o'r mynydd i'r môr, yn cludo yn ei mynwes lawer o'r defnyddiau a gasglodd o wahanol gyfeiriadau o'r parthau uchaf, tra'n gadael peth i waelodi ; felly mae gyda'r meddwl dynol, y mae ffrydiau gwybodaeth yn ymlifo o'r byd allanol, drwy'r synwyrau i faes yr ymwybod, ac oddi yno, lawer o hono, i faes yr anwybod, maes anghof, yn rhyw ystyr, maes

Yr Is-ymwybyddiaeth

yn wir. Maes yw hwn sydd wedi cael llawer iawn o sylw athronwyr meddyliol yn ystod y triugain mlynedd diweddaf. Yno'n benaf yr adeiledir y cymeriad. Y mae pob argraff dderbyniodd y corff, y meddwl a'r yspryd ar glawr yno ; pob peth feddyliwn, ddywedwn, wnawn, wedi ei groni yno, ac yn ffurfio rhan o'r adeilad, ac yn ol ei natur yn cyfranu at ei hagrwch neu ei harddwch. Nid oes dim yn myned i golli ; er allan o'n gafael lawer o hono, y mae eto ar glawr a chadw yn mhlith cyfrinion ein bodolaeth. Nid yw

Y Cyfrwywr

yn cofio pob pwythyn osododd yn y cyfrwy, ond y mae pob pwythyn wedi cyfranu ei ran tuag at ei wneuthur ef yn gyfrwywr o'r fath ag yw. Yn lluaws ystafelloedd ein adeilad meddyliol mae'n grogedig ar ei furiau ddarluniau o holl ddygwyddiadau ein bywyd, yr holl bethau hyny sydd wedi myned i'n gwneuthur y peth ydym. Medir ar bob heddyw o'r pethau a hauwyd ar bob ddoe—y presenol o hyd yn ffrwyth y gorphenol. Fel y mae'r Dychymyg yn paentio'r dyfodol, yn debyg i hyny y mae'r Cof yn rhoddi bodolaeth newydd i'r gorphenol, ac weithiau megys mewn breuddwyd, yn rhoddi profiad blynyddoedd mewn ychydig funydau, fel rhyw banorama mawr o flaen llygaid y meddwl—darluniau o brofiadau gorphenol ein bywyd. Cawn, ond odid, rai darluniau prydferth iawn, darluniau o wasanaeth gwerthfawr, gweithredoedd o gariad

a charedigrwydd gyflawnwyd genym, yn cynyrchu dim ond pleser a hyfrydwch pur ; ond wele yma hefyd ddarluniau gwahanol iawn, lle y syrthiasom dros glogwyni blys a thrachwant, lle y gwnaethom gam ag eraill, gan ymddwyn yn hunangar. Nid yw yn bosibl edrych ar y rhai olaf hyn heb deimlo'r gwrid yn codi i'r wyneb, a'r dagrau, feallai, yn saethu i'r llygaid.

RHYFEDD YW'R COF.

Dywed athronwyr ein bod, wrth osod y cof ar waith, yn gyru negeseuydd bychan ar ei daith o ymchwiliad, a bod hwnw yn rhedeg ar hyd y gieuau, neu wifrenau'r pellebrydd meddyliol drwy'r amrywiol ystafelloedd nes dyfod o hyd iddo, ac yna dychwel mewn munyd a theifl y telegram gerbron.

Ofnaf fy mod wedi crwydro ychydig oddiwrth bwnc y testun ; ond gwn y maddeuir i mi, oblegid y mae galw weithiau, hyd y nod heddyw, am fwy o wyleidd-dra pan yn ymdrin a rhai o bynciau dyfnion a dyrys duwinyddiaeth. Gydag ychydig o'r nwydd gwerthfawr hwnw fe'n galluogir i gael, o leiaf, gipdrem ar wirionedd geiriau Shakespeare—

" Fod yn y nef a'r ddaear fwy o bethau
Nag a freuddwydia ein athroniaeth ni."

Fe gyrhaeddodd Petr a Cornelius

SAFLE FEDDYLIOL NEWYDD.

Cychwynasant o ddwy safle bell iawn oddiwrth eu gilydd, a chawsant eu harwain ar hyd llwybrau rhyfeddol, dirgel ac anhysbys, na ddeallid ganddynt, i olwg maes eangach nag oedd y naill na'r llall erioed wedi ei ddychymygu. Nid oes dim braidd yn fwy anhawdd eu symud na hen ragfarnau ; ond cawn yma rywbeth rhyfedd wedi cymeryd lle, a rhagfarnau wedi eu gorchfygu, ac er mawr orfoledd, yn ddiameu, i bob un o honynt. Cymeriad ardderchog oedd i Cornelius, a chystal a hyny oedd eiddo Petr, er cymaint ei ragfarn. Yn eu gwraidd yr oeddynt yn un, er cymaint y pellder rhwng eu syniadau duwinyddol. Nid pwnc cenedl, nid pwnc opiniwn na chredo yw safon derbyniad gyda Duw ; eithr moesoldeb, pwnc o fywyd a buchedd. Megys i Petr a Cornelius, felly i ninau heddyw, y peth pwysig yw, nid y genedl, nid yr enwad y perthyn dyn iddo, nid Iuddew, nid Groegwr, nid Pabydd, nid Protestant, nid Annibynwr, nid Bedyddiwr, nid Methodist, nid Wesleyad, sydd yn bwysig, ond enaid mewn cymundeb a Duw.

YMWELIAD A CANADA A'R UNOL DALAETHAU.

(PARHAD.)

Wedi i mi weled prif sefydliadau Baltimore a chael trem ar gyrau'r wlad oddiamgylch, aethum yn mlaen i Washington. Yn fuan dwg y gerbydres fi allan o dalaeth Maryland a dof i Ranbarth Columbia lle saif y ddinas. Enwir y Rhanbarth ar ol

COLUMBUS, DARGANFYDDWR AMERICA,

a gelwir y ddinas yn "Washington" ar ol George Washington, Llywydd cyntaf yr Unol Dalaethau. Dyma fi o'r diwedd yn Mhrifddinas—*Metropolis*—yr Undeb. Nid yw Rhanbarth Columbia yn perthyn i un Dalaeth neillduol. Perthynai ar un amser i Maryland a Virginia ond rhoes y Talaethau hyn i fyny eu hawl ynddo er mwyn adeiladu y Brifddinas yno. Rhoddasant ar y cyntaf gan' acer o dir, ond yn ddiweddarach cyfyngwyd ef i drigain a phum acer. Rhoddwyd y sylfaen i lawr yn 1793, a symudwyd swyddfeydd y Llywodraeth yno yn 1800. Saif ar ochr chwith yr afon Potomac ychydig dros gant a haner o filltiroedd cyn yr ymarllwys i Chesapeake Bay. Gelwir dwy geulan afon yn "dde" a "chwith" pan fyddoch yn troi eich cefn ar ei tharddiad ac yn edrych tua'r môr. Felly mae Ceredigion ar yr ochr dde i'r afon Teifi, a Siroedd Caerfyrddin a Phenfro ar y chwith.

Yn nhrefniad ei heolydd y mae Washington fel clwyd fawr ac eis rheolaidd iddi, i lawr ac i fyny ac yn groes. Y mae yr heolydd a redant o'r Gogledd i'r Dê yn cael eu galw yn First Street, Second Street ac yn y blaen; a gelwir yr heolydd a redant o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn A Street, B Street, hyd Z Street. Ar y glwyd yma fel y gorwedd ar y llawr gellwch ddychmygu olwyn cerbyd fawr, a gelwir *spokes* yr olwyn yn Avenues—Massachusetts Avenue, Connecticut Avenue, ac yn y blaen, ar enwau y Talaethau. Gelwir Washington yn fynych yn "Ddinas yr Eangderau Mawreddog"—"The City of Magnificent Distances," ac y mae hwn yn enw tra chymwys ar gyfrif lled anghyffredin yr heolydd a'r nifer fawr o barciau ardderchog sydd ynddi. Am hyn nid oes ddinas gyfan yn y byd yn debyg iddi. Y mae poblogaeth Washington erbyn hyn yn sicr o fod yn dri chan mil, ac y mae un ran o dair yn negröaidd. Ymddangosai i mi fod braidd yr oll a enillent eu bywioliaeth wrth lafur eu dwylaw yn perthyn i genedl Ham. Ambell waith gwelwn deuluoedd negroaidd cyfoethog yn eu cerbydau ac wedi ymwisgo yn holl liwiau'r enfys. Yn naturiol ddigon dewisant liwiau tanbaid, er mwyn amrywio tipyn ar eu lliw tywyll eu hunain. Ar adeg fy ymweliad yr oedd y lle yn llawn iawn o negroaid am fod cynhadledd fawr y Bedyddwyr Negroaidd yn cael ei chynal yn y gymydogaeth. Yr oedd yno gynrychiolwyr o bell ac agos ac ymddangosent yn wir frawdol. A barnu wrth eu bywiogrwydd a'u siriolded yr oedd eu crefydd yn gwneud daioni iddynt. Er fod yr Undodaid wedi cymeryd rhan mor flaenllaw yn rhyddid y caethion yn y Trefedigaethau Prydeinig ac yn America nid ydym eto wedi gwneud appêl ddyladwy at y negroaid fel ag i gymeradwyo iddynt

Efengyl y Cariad Tragywyddol

Digon tebyg y tardd ein hwyrfrydigrwydd yn y mater hwn oddiar ein hadgasrwydd o'r syniad cyffredin fod y paganiaid i gyd yn golledig. Yn awr y mae yn amlwg fod ein harweinwyr yn ymddihuno i'r syniad y dylem wneud mwy dros y byd mewn ystyr genhadol. Hyderaf y dilynir "Cenhadaeth y Van" gan genhadaeth i holl genedloedd y ddaear fel ag i frysio yr amser addawedig pan addolir y Tad mewn yspryd ac mewn gwirionedd yn mhob rhan o'r byd. Pob parch i'r cenhadon ffyddlon sydd wedi bod, drwy yr oesau, yn llafurio yn nhywyllfanau y ddaear. Y maent wedi gwneud eu rhan yn ogoneddus i ddyrchafu dynoliaeth. Mae digon o waith i bawb ar faes llydan y byd. Y mae y Mahomedan wedi bod yn llwyddianus iawn fel cenhadwr yn Affrica gyda'i grêd mewn Un Duw. Ni phetrusaf ddyweyd y byddai cenadwri yr Undodwr yn fwy derbyniol fyth gan yr Affricaniaid pe traddodid hi iddynt yn ei symlrwydd a'i harddwch. Ond rhaid i mi beidio erwydro. Gan mai Washington yw prifddinas yr Unol Dalaethau yno y gwneir y deddfau a berthynant i'r wlad yn gyffredinol. Fel ag yr ydym wedi gweled, y mae

pob Talaeth yn Werinlywodraeth ar ei phen ei hun, ac y mae gan bob un ei Senedd lle y gwnein deddfau – hyny yw, y mae yr holl Dalaethau yn mwynhau *Home Rule*. Parliament y Parliamentau yw yr hwn a gyferfydd yn Washington. Ar y cyntaf nid oedd ond tair-ar-ddeg o Dalaethau yn yr Undeb, a'r rhai hyny yn Nwyreinbarth y Cyfandir. Yn awr rhifa'r Talaethau bump a deugain a chyrhaedda'r Undeb o Fôr y Werydd i'r Tawelfor yn y Gorllewin pell, ac o afon St. Lawrence i Mexico yn y Dê. Fel yn y wlad hon y mae dau Dŷ Deddfwriaethol, gyda'r gwahaniaeth nad yw'r Tŷ uchaf yn etifeddol fel Tŷ yr Arglwyddi gyda ni. Gelwir y Tŷ uchaf y Senedd a gwneir ef i fyny o ddau gynrychiolydd o bob Talaeth. Felly rhifa bedwar ugain a deg. Gelwir y Tŷ arall yn Dŷ y Cynrychiolwyr y rhai a etholir gan ranbarthau o bron yr un arwynebedd drwy y Talaethau i gyd, ac y mae yn awr dri chant a phedwar ugain a chwech o aelodau. Am flynyddau, hyd ei farwolaeth,

Dr. Edward Everett Hale,

y gweinidog Undodaidd enwog oedd Caplan y Wladwriaeth. Ei olynydd yw Dr. Pierce, gweinidog yr Undodiaid yn Washington. Gŵyr Golygydd Yr Ymofynydd yn dda drwy brofiad fod hyn yn ddichonadwy yn unig mewn gwlad lle bodola perffaith gyddraddoldeb crefyddol. Telir cyflog o fil o bunnau'r flwyddyn i bob cynrychiolydd yn gystal ag i bob seneddwr. Etholir y Llywydd gan y Senedd a chan etholwyr a benodir ar gyfer hyny gan bob Talaeth yn yr Undeb. Gwasanaetha am bedair blynedd, a thelir iddo gyflog o ddeg mil o bunnau'r flwyddyn. Ymddengys hyn oll yn dra syml, ond nid yw felly mewn gwirionedd. Yn mhob etholiad ysgytir holl gyfansoddiad y wlad i'w sylfeini, fel pe gan ddaeargryn gymdeithasol. Dywedai Emerson. fel ffrwyth ei brofiad yn y wlad hon, na welai ef fod gwerinlywodraeth yn rhagori ar deyrnlywodraeth o fewn terfynau, fel yr eiddom ni.

Yn nesaf, dywedaf ajr am y Senedd-dŷ—y Capitol—yr hwn sydd adeilad dyddorol a gorwych. Fel y saif yn awr, y mae wedi costio tair miliwn a dau can' mil o bunnau. Y mae yn yr arddull Groegaidd, a saif ar dipyn o fryn pedwar ugain a deg o droedfeddi uwchlaw wyneb y Potomac. Afreidiol yw dweyd fod yno ddigon o le i'r Seneddwyr a'r Cynrychiolwyr. Y mae lle hefyd i ddwy fil a haner o wrandawyr yn yr orielau. Un o'r manau harddaf yn yr adeilad yw y Rotunda, yr hwn sydd ystafell eang ac uchel ar ffurf cylch crwn, o dan y nenfwd. Gorchuddir y mur yn gyfangwbl gan arluniau mawreddog yn arddangos gwahanol ddigwyddiadau pwysig yn hanes yr Undeb. Wrth edrych ar y pictiwr sydd yn darlunio Columbus yn darganfod y wlad yn 1492, nis gallwn lai na meddwl mor fychan mewn cymhariaeth oedd y byd cyn hyny. Ni chlywodd Chaucer na

Dafydd ap Gwilym

erioed am America ac ni freuddwydiodd y Frenhines Elizabeth na Shakespeare fod y fath wlad ag Awstralia! Ond rhaid i mi ddychwelyd at y Capitol. Y mae y cysgodfeydd uchel ac eang o flaen y brif fynedfa, yn sefyll, fel ag y maent, ar golofnau yn arddull Corinth, yn hardd iawn. Yn un o'r ystafelloedd y mae dau gerflun o enwogion pob Talaeth – pedwar ugain a deg o bobl olygus a meddylgar eu hagwedd, gan mwyaf yn eistedd ar gadeiriau. Ceisiwn ddychmygu pa mor ffraeth y byddent, pe deuai bywyd i'r marmor gwyn, fel y daeth i'r cerflun hardd a wnaeth Pygmalion gynt, yn y stori!

Y mae y gerddi oddiamgylch y Capitol wedi eu trefnu yn odidog—blodau, blodau yn llanw pob cilfach.

Oddeutu milltir a chwarter o'r Capitol yn Pennsylvania Avenue, yr hon, ar lawer cyfrif, yw yr heol harddaf yn y ddinas, y mae y "Ty

Gwyn," preswylfod y Llywydd. Yno y presenola ei hun ar achlysuron neillduol i dderbyn ymwelwyr, a disgwylir arno roddi groesaw llon i bawb, o bob gradd, fel arwydd o yspryd brawdol gweriniaeth. Aethum drwy yr ystafelloedd ag oeddynt yn agored i'r cyhoedd a sylwn eu bod yn dlws a chysurus, ond nad oeddynt i'w cymharu a'r ystafelloedd yn mhalasdai brenhinol y wlad hon.

Nid pell o'r Capitol yw y Gerddi Llysieuol lle y gwelais *bananas* yn tyfu yn yr awyr agored. Yr oedd yr hin yn wresog iawn y diwrnod hwnw, ac yr oeddwn yn teimlo rywbeth yn debyg ag y gwnai Sydney Smith pan ddywedodd wrth gyfeilles yn Edinburgh ar brydnawn o Haf, y dymunai eistedd yn ei esgyrn noeth a chlywed yr awel yn chwiban rhyngddynt!

Treuliais un Sul yn Washington ac aethum i'r gwasanaeth boreuol yn yr Eglwys Undodaidd, yr hon sydd adeilad eang a hardd yn yr arddull Gothaidd, gyda thŵr uchel uwchben y Porth. Yr oeddwn yno yn gynar ac felly yr oedd genyf amser i edrych oddiamgylch y lle. Yn y porth yr oedd rhestr o'r bobl oeddynt wedi ymaelodi yn ddiweddar, ac yn eu plith gwelais enw Mr. Taft, diweddar Lywydd yr Unol Dalaethau, ac hefyd enw gwr enwog arall, sef y Llyngesydd Evans yr hwn a ddangosodd wroldeb mawr yn Rhyfel Cuba. Y mae yr Eglwys yn orchuddiedig gan y *Virginian Creeper* fel Eglwysi Boston. Cyn gorphen ei amser fel Llywydd, gwnaeth Mr. Taft appêl at holl Undodiaid America ar iddynt adeiladu Eglwys eangach a mwy destlus fel cartref yr enwad yn y Brifddinas, ac y mae y mudiad ar droed i wneud hyny. Pan fyddo yr aelodau a'u teuluoedd gartref y mae yr Eglwys bresenol yn rhy fechan i'w cynwys, er ei bod yn adeilad mawr. Y mae y blaenoriaid yn gall i beidio rhanu y gynulleidfa am fod un Eglwys gref yn llawer mwy dylanwadol er daioni nag amryw eglwysi gweinion gyda'u gilydd. Er fod y rhan fwyaf o'r bobl, a'r oll o'r Aelodau Seneddol ar eu gwyliau ar adeg fy ymweliad, yr oedd yno gynulleidfa ragorol. Yn absenoldeb Dr. Pierce,

GWEINIDOG ANNIBYNOL OEDD Y PREGETHWR,

ac yr oedd yn amlwg ei fod yn ŵr o ddiwylliant, ac fod ei syniadau wedi ei trwytho â'r wybodaeth newydd. Ei destun oedd Gen. i., 2: "Yspryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd." Dangosai fod y gair gwreiddiol a gyfieithir "*m'rachepheth*" yn arwyddo gwylio yn dyner uwchben rhyw wrthrych anwyl, fel ag i'w nerthu a'i gysuro. Cyfleir y syniad yn y frawddeg Saesneg—"to brood over"—fel y casgl yr iâr ei chywion dan ei hadenydd. Beth yw hanes dynoliaeth drwy yr oesau ond cofnodiad o waith yr Yspryd Mawr tragwyddol yn arwain y cenedlaethau yn mlaen yn dyner, ar hyd llwybrau gwareiddiad a sancteiddrwydd. Y mae Yspryd eto yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd, a gwyn ein byd os ydym yn ei deimlo yn ein nerthu a'n cysuro ar daith bywyd. Yr oedd y bregeth yn hollol syml ond eto yr oedd yn myned at wreiddyn y mater. Ar ol y gwasanaeth cefais ymgom hyfryd gydag amryw o'r blaenoriaid, ac yn eu plith gyda Mr. Eynon, Cymro glân o waedogaeth. Deil Mr. Eynon swydd uchel yn y

"TRYSORDY CENEDLAETHOL,"

ac yr oedd mor garedig a rhoddi i mi *introductions* a fuont o ddefnydd mawr i mi. Yn yr hwyr aethum i gyfarfod y Bobl Ieuainc yn mharlwr yr Eglwys, a galwyd arnaf i roddi anerchiad iddynt. Yr oedd yn hyfryd gweled pobl ieuainc o'r diwylliant uchaf yn cymeryd rhan mor naturiol mewn achos mor dda.

Boreu dranoeth aethum i weled Mr. Eynon yn ei swyddfa yn y "Trysordy" a dangosodd i mi yr ystafelloedd mwyaf dyddorol yn yr adeilad, ac nid oedd hyn yn waith bychan. Y mae y Trysordy yn un o brif adeiladau y ddinas ac y mae yn hardd odiaeth. Y mae dros bum can troed-

fedd o hyd ac yn agos i dri chant o led. O ran arddull y mae rywbeth yn debyg i deml fawr Diana yr Ephesiaid gynt, gyda cholofnau Ionaidd llyfn yn dal i fyny y cysgodfeydd ardderchog o gwmpas iddo. Anhawdd cyfleu mewn geiriau pa mor fawreddog ydyw. Gwelais y cell-oedd lle y cedwir gwerth canoedd o filiynau o arian wedi ei fathu ac hefyd heb ei fathu. Nid arosais yno yn hir, am y cofiwn mai "gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch." Gwelais hefyd y casgliad mawr o "arian drwg" sydd yno a darluniau y rhai a'u gwnaethant.

Un diwrnod cefais y fraint o fyned drwy "Lyfrgell y Senedd," yr hon sydd adeilad gwir fawreddog, ar ben ei hun, mewn gerddi hyfryd gerllaw y Capitol. Mr. Bernard Green, Undodwr selog, a'i cynlluniodd, a thrwy garedigrwydd Mr. Eynon cefais y gwr enwog hwn i egluro ei waith i mi. Y mae yn arddull Italaidd y cyfnod hwnw pan oedd Europe yn cyflym ddihuno o'i chysgadrwydd meddyliol—cyfnod adfywiad gwybodaeth. Y mae yn y llyfrgell le i bum miliwn o gyfrolau, ac y mae yno yn barod ddeuddeg can mil. Y mae yno ddyfais gywrain drwy ba un y daw llyfr "ei hunan fach," fel y dywed y plant, i law y llyfrgellydd. Addurnir yr holl le gan arluniau, cerfwaith a marmor amryliw o bob math. Ni welais yn un rhan o'r byd, lle bum yn teithio, adeilad sydd mor llawn o ddyddordeb, a'r hwn a rydd i'r ymwelydd gymaint o addysg. Y Y mae gan Mr. Bernard Green swyddfa yn y lle, ac y mae yn barhaus yn ychwanegu at harddwch a chyfleusderau yr adeilad, yr hwn sydd eisioes wedi costio dros filiwn a chwarter o bunnau. Tu allan, ar yr ochr orllewinol, y mae *busts* o Demosthenes, Emerson, Goethe, Gacaulay, Dante, Franklin, ac ereill, yn arwydd o gyfraniadau gwahanol wledydd i gyfoeth meddyliol. Fel yn Baltimore, a dinasoedd ereill, perchir enw

BENJAMIN FRANKLIN

yn fawr yn Washington. Yr oedd yn wr goleuedig, yn mhob ystyr. Am ei grefydd dywed mewn llythyr at gyfaill—"Yr ydych yn dymuno gwybod rhywbeth am fy nghrefydd. Dyma y tro cyntaf i mi gael fy holi yn ei chylch. Ond gwnaf barchu eich cywreinrwydd yn y mater, a cheisiaf eich boddloni mewn ychydig eiriau. Dyma fy nghredo. "Credaf mewn Un Duw, Creawdwr y Bydysawd; ei fod yn llywodraethu y cyfan drwy ei Ragluniaeth; ei bod yn ddyledus arnom i'w addoli; mai y gwasanaeth mwyaf derbyniol allwn roddi iddo yw gwneud daioni i'w blant ereill; fod enaid dyn yn anfarwol, ac y trinir ef gyda chyfiawnder mewn bywyd arall mewn perthynas i'w ymddygiad yma. Dyma yw yr hyn a ystyriaf yn egwyddorion sylfaenol gwir grefydd, a pharchaf hwynt yn mha sect bynag y cyfarfyddaf a hwynt."

E. CEREDIG JONES.

(*I'w barhau*).

ARHOLIAD BLYNYDDOL YR YSGOLION SUL.—Cymer le prydnhawn Mercher, yr 8fed o Ebrill, am 5 o'r gloch. Hyderwn y gwna pob Ysgol y casgliad blynyddol cyn y Cymanfaoedd Ysgolion.—*L. Williams, Ysg.*

Rhoddwn y dyfyniadau canlynol o ysgrifau ymddangosodd yn ddiweddar yn "Y Drych," mewn perthynas i gymeriad y gwr adnabyddus uchod, y rhai sydd yn llefaru drostynt eu hunain. A wna rhyw ohebydd mwyn ychwanegu?

IOLO MORGANWG.

"Pa sawl darllenydd a wyr am emynau Iolo Morganwg? Fuoch chwi yn canu un o honynt? Naddo, ac eto fe gyfansoddodd ganoedd. Ac 'roedd yn Iolo fwy o dalent na llond capel o ddynion fel Edward Jones, Maesyplwm, neu Tomos Lewis, Talyllychau, ie, nag oedd yn yr hen Forgan Rhys a John Hughes, Pontrobert, ac yr y'm yn canu penillion o'r eiddynt hwy bob Sul. Ond paham y mae emynau Iolo yn fwy meirwon na hyd yn nod interliwdiau Twm o'r Nant? Am mai math o Fenjamin Franklin ydoedd Iolo yn ei olygiadau crefyddol nid oes yn ei emynau ddim o'r 'peth hwnw' sydd ar enaid clwyfus a newynog ei eisieu, ddim gras a maddeuant i adyn sydd a rhaff y gollfarn am ei wddf, ddim nerth bywyd annherfynol i faethu profiad a chryfder; mewn gair, 'does dim Calfiniaeth ynddynt, ac maent wedi ffaelu byw yn hinsawdd ein crefydd, yn Nghymru nac America." —*Y Parch. J. Hammond, M.A.*

Wele ateb 'Talywaenydd' i'r uchod—

"Yr oedd Iolo Morganwg yn fardd; ond yn ol gohebydd galluog a dysgedig yn "Y Drych" ychydig yn ol, nid oes dim o'r "peth hwnw" yn ei emynau, ac nid oes neb yn eu canu, am nad oes dim ynddynt fel pe buasai newydd yfed ffircyn o win melus. Ond nid yw y ffaith fod dyn yn cyfansoddi emyn a bâr i'r canwr deimlo "hwyl" yn brawf fod cadernid yn nghymeriad yr awdwr. Nid yw yr hyn sydd mewn emyn neu draethawd yn brawf o gymeriad yr awdwr ychwaith. Yr oedd gan Iolo gymeriad cryf, er iddo fod yn rhyw fath o Benjamin Franklin yn ei olygiadau crefyddol. Gwnaeth Ben fwy o ddaioni i'r byd na chant o awdwyr emynau yn llawn o'r "peth hwnw."

Ni fu gan Galfiniaeth erioed gymeriad cryfach na Iolo. Ni fu ef erioed yn ddigon gwan a chul i geisio gormesu neb i gredu fel efe ei hun, nac i ymyryd yn wrachiaidd yn nghylch amgylchiadau cyffredin y bobl. Nid oedd yn ddigon cul ychwaith i gredu, os y dygwyddai i rywun gredu yn groes iddo ef, y byddai hyny yn ddigon pwysig i ddyrysu cyfundrefn raslawn yr Holl-alluog. Ac ni fuasai byth yn defnyddio yr un tric i fradychu ei gydheretic i law gormeswr. Anaml y gellir cyfarfod a chymeriad cryfach na Iolo; oblegid yr oedd yn ddigon cryf i wrthwynebu temtasiynau cryfaf ei oes. Nid oedd am gydymffurfio ag arferion awdurdodau ei oes, oblegid yr oedd ganddo eisieu gwella; na ffoi, a manteisio ar wendidau y bobl i'w gorthrymu. Yn fyr, yr oedd yn cael ei reoli gan egwyddorion Cristionogaeth, nid gan amgylchiadau allanol.

Beth yw cymeriad? A oes rhywun heddyw a ddymunai fod o dan awdurdod y cymeriad Calfinaidd? Yn fyr, gellir dweyd mai adeilad wedi ei ffurfio o weithredoedd cyson dyn yw cymeriad da neu ddrwg. Cynyrch gweithredoedd ydyw, yn cael eu cynyrchu gan egwyddorion mewnol dyn. Nid yw yn deg beirniadu cymeriad dyn oddiwrth weithred eithriadol. Mae yn weddus taflu mantell cariad dros y weithred eithriadol; ond nid yw yn iawn gwneyd hyny a

chymeriad drwg. Yr ydym oll yn agored i lithro ar air; eithr mae gwahaniaeth rhwng hyny a gweithredu i ffurfio cymeriad da neu ddrwg. Hefyd nid yw talent i gyfansoddi traethawd neu emyn yn profi gallu dyn. Mae gallu yn golygu medr i reoli y nwydau yn ngwyneb temtasiynau. I ddangos osgo cymeriad Iolo, dyfynaf a ganlyn, heb y manylion.

Yr oedd yn cadw siop mewn lle o'r enw Pontfaen. Tua'r adeg hon y dygwyddodd chwyldroad Ffrainc, ac yr oedd Iolo yn pleidio y symudiad cynhyrfus hwnw, er yn cashau ei greulondeb a'i annuwiaeth. Yr oedd yn ei bleidio er mwyn i'r bobl gael rhyddid i ddefnyddio eu parabl eu hunain i adrodd eu meddyliau eu hunain, oblegid yr oeddent wedi blino ar y gyfundrefn unochrog, "Yr hwn sydd ganddo glust i wrando gwrandawed." Gan fod Iolo yn pleidio yr helynt yn Ffrainc, dechreuodd yr awdurdodau yn Lloegr ameu ei ffyddlondeb iddynt hwy fel dinesydd. Gwelwyd ef unwaith neu ddwy hefyd yn nghwmni Tom Paine. Ofnent hefyd ei fod yn masnachu ac yn gwerthu llyfrau Tom, sef, "*Rights of Man*," a "*Age of Reason*," ac os oedd yn gwneyd hyn yr oedd yn agored i gosb drom. Yr oedd Tom yn ysgymunbeth gan ddosbarth o bobl y pryd hyny, fel Calfin yn Paris, Servetus yn Geneva, a Tyndale a'i Feibl yn Llundain ychydig yn flaenorol. Deallodd Iolo yr amheuaeth, ac ofnai y buasai yr awdurdodau yn gyru swyddogion dirgelaidd i edrych i'r drafodaeth, a phenderfynodd ddefnyddio yr amgylchiad er daioni. A rhyw noson gwelodd ddau ddyn yn llechian o gwmpas y siop, ac er eu dirfawr lawenydd yr oeddynt yn gweled llyfr yn y ffenestr a "*Rights of Man*" yn ysgrifenedig arno. Aethant i'r siop, a phrynwyd y llyfr, ac ar ol ei agor gwelsant mai y Beibl oedd. Ceisiasant gyhuddo Iolo o dwyll, ond yr atebiad a gawsant oedd, nad oedd yn gwybod am lyfr yn cyuwys mwy o iawnderau dyn na'r Beibl; ac yr oedd yn teimlo yn falch o'i lwyddiant i gael y ddau i'w brynu a'i ddarllen. Dengys hyn pa mor hawdd oedd i ddyn egwyddorol gael ei gamgymeryd gan y *trash* Calfinaidd Eglwys Lloegr.

Yr oedd gan Iolo dri brawd yn Jamaica, ac yr oeddynt wedi casglu cyfoeth yno, ac yr oeddynt yn gwybod fod Iolo mewn amgylchiadau cyfyng ar hyd ei oes. Anfonasant lythyr ato yn cynyg haner cant o bunoedd iddo yn flynyddol i'w gadw uwchlaw angen, ond gan y credai fod yn rhaid fod y caethion yn y wlad hono wedi helpu ei frodyr yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol i gasglu y cyfoeth gwrthododd y cynygiad gyda dirmyg. Yn mhen blynyddau wedy'n bu farw y brodyr, ac yr oedd y cyfoeth i'w drosglwyddo yn ol y gyfraith i Iolo, eithr gwrthododd y cyfan, a dywedodd y dylasid trosglwyddo y cyfoeth i gaethion Jamaica. Dyna ddull cyson Iolo o weithredu. Yr oedd yn cashau gorthrwm annuwiaeth a bryntni ei oes o eigion ei galon. Yn fyr, nid oedd dim o gulni Calfiniaeth o'i gwmpas o gwbl, eithr yr oedd ei galon yn llawn o egwyddorion Cristionogaeth. Erbyn heddyw mae Cristionogaeth wedi ei chladdu o'r golwg gan Galfiniaeth; Calfiniaeth yw pob peth, fel y cladd-wyd eglwys Crist gan syniadau paganaidd cynulliad y Merthyron; ar ol hyny y Babaeth oedd pob peth."

Nid ydyw Cynildeb yn golygu cadw arian mwy na gwario arian. Y mae yn golygu gwario a chadw, pa un ai amser ynteu arian, neu unrhyw beth arall, i'r fantais oreu sydd yn bosibl.—John Ruskin.

Dedwydd y dyn yr hwn a fwytâ yn unig am fod arno newyn, ac a yf yn unig am fod arno sychedd, ac sydd yn byw wrth reswm, ac nid wrth esiampl, ac yn darpar er defnyddioldeb ac angenrhaid, nid er ymddangosiad a gwychder.—Seneca.

MARWGOFION.

IONAWR 19, yn 82 mlwydd oed, Hannah, gweddw y diweddar Elias Williams, Trebanos. Ar lawer ystyr mae yn llawen i allu meddwl i'n chwaer a'n mam oedranus gael nerth a iechyd i ddal cyhyd cyn sangu ar raian yr afon. Ond cyrhaedd fu hanes hon. Yn mlaen yr ä dynoliaeth gyfan ; y mae atdyniad y Tragwyddolfyd yn ein cymeryd ato ei hun. Glynodd ein hanwyl fam wrth ei chrefydd, ac wrth ei Hiesu, a'i Duw, hyd ei bywyd maith. Cyll cynulleidfa Gosen ffyddlonwraig, fu yn addurn i'r achos drwy y blynyddoedd. O ! am gael meddu cyfran o ffyddlondeb ein hynafiaid a'n blaenoriaid. Y Sadwrn dilynol, claddwyd wrth Gellionen. Gwasanaethodd y Parch. D. G. Richards, Gosen, yn doddedig. I'r plant sydd ar ol, yr eiddunwn wenau a dawn yr Ior ei hunan, i barhau i'w cadw a'u nherthu i rodio dros y llwybrau, ar hyd pa rai yr aeth yr hon fu yn fur amddiffyn iddynt.

Fam anwyl, os hir fu eich taith yn y byd,
Cynyddodd eich profiad yn fawr yr un pryd ;
Bu trymder gofalon yn llethu eich bron,
Er hyny, chwi wnaethoch rai ereill yn llon ;
Wrth garu'ch rhai anwyl, chwi a'i car'soch Ef,
Am hyny, mae'ch gwobrwy yn fawr yn y nef.

IONAWR 20, yn 62 mlwydd oed, David William Davies, Heol Newydd, Trebanos. Tra wrth ei waith yn y lofa y boreu nodwyd, caled yw hysbysu y darllenydd, i'n gwrthddrych anwyl gwrdd a'i ddiwedd mewn modd sydyn iawn, trwy i ran o'r nenfwd syrthio arno. Ceisiwyd gwneud pob peth posibl tan yr amgylchiadau i'w achub, ond methodd ei gydweithwyr yn y cyfyngder brawychus, a pherygl-on lu yn [illegible] herio ar bob llaw ! Melltenodd y newydd galarus dros ardal fechan Trebanos gyda buander, ac elai pawb i ystad lethol o fudanrwydd ! Methem yngan bron ! Wylem yn hidl ! " Byddwch lawen gyda'r rhai sydd lawen, ac wylwch gyda'r rhai sydd yn wylo." Tost i wraig a'i phlant yw derbyn y gwr a'r tad yn ol i'r tŷ yn gorph, wedi myned allan y boreu yn hoenus a llawen. Beth, tybed, ydyw ystyr a sylwedd troion dyrus fel hyn ? Pen teulu wedi ei gymeryd ymaith. Tanau telyn awen wedi eu dryllio. Gweddiwr taer ac erfyniol wedi tawelu. Diacon duwiol wedi cefnu ar ei waith ; ie, a dyngarwr arall yn mhlith y lluaws mud ! Y dydd Sadwrn cyfisol y rhowd ei deml frau i orwedd yn nghladdfa Gellionen. Gweinyddodd y Parch. D. G. Rees, gweinidog, ar yr achlysur prudd gyda thynerwch a dwysder. Nefol nawdd ddelo i ran y weddw alarus, a'r plant, yn eu hiraeth dwys ar ol yr hwn fu ffyddloned iddynt i'r diwedd. Bydd Eglwysi Gellionen a'r Graig yn dlotach yn herwydd symudiad sydyn un o'u blaenoriaid didwyllaf. Maged Eglwys Dduw bobl gyffelyb, yma, bydd y nefoedd yn gyfoethocach.

" O ! am nerth i dreulio'm dyddiau
Yn nghynteddoedd Ty fy Nhad,"
Ydoedd un o ddymuniadau
Mwyaf tlws ein blaenor mad.

Canodd ei farddoniaeth wisgi
I brydferthwch bywyd dyn ;
Ac atseiniodd nodau'r cerddi
Yn ei fywyd ef ei hun.

" Dos yn mlaen, bererin egwan,"—
Dyna'r Emyn hoffai ef,
Swynol yma emyn-gyngan,
Swynol mwy yn nef y nef.

CHWEFROR 2, yn 45 mlwydd oed, bu farw Sarah Thomas, priod Mr.

William Thomas, Lower Vaynor Road, Cefncoed. Yr oedd yn amlwg i bawb er yr haf diweddaf nad oedd adferiad yn bosibl i'r ymadawedig, ac er i ni gael ein parotoi ar gyfer y gwaethaf, bu dydd ei hymddatodiad yn achos siomedigaeth chwerw i bawb o'i chydnabod. Perthynai i Mrs. Thomas nodwedd sydd yn rhy anghyffredin y dyddiau hyn, sef ffyddlondeb i'w haelwyd ac i'w heglwys. Fel cymydoges tystiolaethir yn uchel am dani ; ac fel aelod yn yr Hen Dy Cwrdd, y lleiaf allwn ni ddweyd am dani hi yw "Hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth." Gadawodd i alaru ar ei hol briod, brawd, chwaer, ac amryw berthynasau ereill. Hebryngwyd ei gweddillion i gladdfa yr Hen Dy Cwrdd y dydd Iau canlynol, y gweinidog yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Jacob Thomas (A.)

CHWEFROR 11, yn 71 mlwydd oed, Gwenllian, gweddw y diweddar John Bowen, Heol Ynysyderw, Pontardawe. Darfu i'n hanwyl fam ymadawedig oddef llawer o nychdod yn ystod y rhan olaf o'i bywyd maith. Gwraig dawel, ddiwyd, oedd modryb Gwen, gwraig barod a gostyngedig, a'i chymwynasau a aroglent megis yr eiddo brieill cynta'r gwanwyn, a blodau Mai. Eglwys-wraig ffyddlon ydoedd hi, a bu ei rhodiad yn deilwng o'r hyn y dylai rhodiad pob un eilw ei hun ar enw Iesu Grist, y Blaenor diogel. Croesodd ei hanwyl gydmar ffin y bywyd tua 17eg o flynyddau yn ol ; ac wele hithau yn ol ei draed. Y Llun dilynol, cladd wyd wrth Gelli-onen. Gwasanaethwyd fel y canlyn : Wrth y ty gan y Parch. — Evans-Davies, B.A., Cilybebyll, a'r Parch. — Harries, Alltwen, ac yn y capel a glan y bedd gan y Parch. D. G. Rees, gweinidog. Sugned y merched a'r bachgen sydd ar ol eu cyfnerth oddiwrth Dad y goleuni, a Duw pob dyddanwch.

Megis tyfiant y blodionos,
Fu ei bywyd drwy y daith ;
Eiliai gerddi mudan-linos
Yn gyfeiliant mwyn i'r gwaith ;
Gedy anogaethau tlysion
Yn yr anial ar ei hol ;
"Gwyn eu byd y pur o galon,
Rhosyn hardd ar wanwyn-ddôl."

CHWEFROR 12fed, yn 81 oed, Margaret Jones, Granville, Ohio, U.D.A. Genedigol o Cathal, plwyf Llandyssul oedd yr ymadawedig. Hon ydyw yr olaf o'r teulu, sef plant Edward ac Anne Williams, yn ddiweddarach o'r Fadfa. Yr oedd yn briod i'r diweddar J. D. Jones, Arwerthwr, yn byw y pryd hwnw yn fferm Talgareg. Ymfudasant i'r Unol Dalaethau tua deugain mlynedd yn ol. Yr oedd hefyd yn chwaer i'r diweddar David Williams, Cefn-gwallter, gynt o'r Fron, Pontshan, hanes marwolaeth yr hwn ymddangosodd yn YR YMOFYNYDD am Mawrth. Bu y brawd a'r chwaer hon farw yr un awr, mor agos ag ydym yn gallu deall. Yr oedd llythyr o Gymru yn hysbysu am farwolaeth y brawd, ac hefyd lythyr o Granville yn hysbysu am farwolaeth y chwaer yn cael eu cyfeirio (postio) yr un dydd. Nid yn aml y ceir hanes am gyffelyb gyd-ddygwyddiad. Er na chawsom y fraint o adnabod y chwaer ymadawedig, y mae genym dystiolaeth am dani, ei bod yn gymeriad teilwng o goffadwriaeth. Bu yn hollol fethedig am yr wyth mlynedd diweddaf, ond yr oedd yn ystod yr amser hwn yn hynod amyneddgar a boddlawn. Bywyd syml a siriol oedd ei heiddo hi. Yn ei horiau olaf, er yn methu dweyd gair, amlygai ei boddlonrwydd i'r rhai oedd yn gweini arni, drwy wên siriol. Claddwyd hi y Sul canlynol yn mynwent yr eglwys Gymreig, Granville. Gadawodd i alaru ar ei hol un mab a phedair merch. Profedigaeth chwerw oedd ysgariad rhwng mam fel hon a'i phlant, yn enwedig felly i'r ddwy ferch fu yn gweini arni am yspaid mor faith. Pan feddyliwn am yr ysgariad fel cyfnewidiad bywyd, ac ail undeb, nid ydyw yn ymddangos mor galed. Yn ngeiriau ysgrifenydd y llythyr : "It is better that we should think of it that way, and we should

never forget that our heavenly Father bears our burdens with us, and that our loved ones are in his care." Boed y meddwl yma fod yn eiddo yr oll o'i phlant sydd mewn galar ar ol mam mor rinweddol.

CHWEFROR 20, yn 69 oed, bu farw Oliver Howells, Tower Hill, Pencarreg. Yr oedd ei iechyd wedi gwanychu er's yn agos i ddwy flynedd, ond parhaodd i fyned oddeutu hyd o fewn yr ychydig fisoedd diweddaf. Gadawodd weddw, dau fab—Griffith ac Evan—a lluaws o berthynasau agos mewn galar dwys ar ei ol. Nerth a gaffont i alaru'n gymedrol ac i ymgysuru yn y gobaith nad yw'r ymwahaniad ond dros amser. Yr oedd yn aelod o gynulleidfa Capelygroes, fel yr oll o'r teulu, a thra y caniataodd ei iechyd, mynychai yn weddol gyson, er fod ganddo uwchlaw chwe' milltir o ffordd i deithio; a choronai ei broffes â bywyd hynaws, cywir. Pregethwyd yn y ty cyn cychwyn gan y Parch. D. Evans; a chymerwyd rhan yn y gwasanaethau gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwyn (nai i'r ymadawedig). Claddwyd ei weddillion yn mynwent y lle uchod dydd Iau canlynol, pryd y daeth yn nghyd dorf luosog iawn i dalu iddo y gymwynas olaf.

CHWEFROR 20, yn gymharol sydyn ac anisgwyliadwy, Anne Evans, Cefnberth (Nanny Red Lion), Bwlchyfadfa, Llandyssul, yn 78 oed. Cafodd yr ymadawedig, fel y gwelir, flynyddau lawer i fyw yn y byd, ac er iddi symud lawer gwaith o dŷ i dŷ i fyw, treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yn ardal Bwlchyfadfa, a bu yn aelod ffyddlon iawn yn y Bwlch hyd y diwedd. Eithriad fawr oedd iddi fod yn absenol o'r addoliad, yr oedd yn ei lle bron bob Sul. Delai i'r gwasanaeth yn brydlon ac amserol, ac wedi dod gwrandawai'n astud a sylwgar. Mae'r Eglwys wedi colli aelod selog, a'r ardal wedi colli un a berchid yn fawr ar gyfrif unplygrwydd ei chymeriad. Benyw ffraeth, barod i reswm oedd Nanny, a pharod i wneud cymwynas. Gadawodd mewn galar ddwy chwaer, mab (drwg genym i afiechyd ei rwystro i fod yn bresenol yn yr angladd), a dwy ferch heblaw perthynasau ereill a llawer o gyfeillion. Claddwyd y Mercher canlynol yn Bwlchyfadfa, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

CHWEFROR 22, Miss Sarah Davies, Llwynifan Cottage, Cellan, yn 72 mlwydd oed. Mae cofnodi hanes symudiad y naill gyfaill ar ol y llall yn yr angau'n waith digon torcalonus ac anhawdd ei gyflawanu, —er gwybod o honom fod marwolaeth yn rhan o gynllun anfeidrol ddoeth a da, ac er gwybod o honom nad yw angau ond porth i fyd sydd uwch, a gwlad sydd well, eto mae'r ffarwelio'n anhawdd, a'r golled i ni sydd ar ol yn aml yn fawr. Yr oedd Miss Davies yn un o hen aelodau ffyddlonaf Eglwys fechan Caeronen, a phan yn iach ac yn alluog, nid oedd un aelod yn fwy felly, ac nid oedd neb yn fwy parod bob amser i roddi rheswm byr a chynwysfawr i bawb a ofynai iddi am y gobaith oedd yn ynddi, er mai gwneud ac nid siarad oedd y nodwedd mwyaf amlwg yn ei bywyd. Gadawodd mewn galar ar ei hol dri brawd, a thair chwaer, heblaw perthynasau eraill lawer, ond llai agos. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Caeronen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

CHWEFROR 27, yn 85 oed, bu farw William Davies, Gôf, Cribyn. Yr oedd William yn un adnabyddus iawn, a perchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenai, yr hyn a amlygwyd gan y dorf luosog ddaeth yn nghyd y dydd Mawrth canlynol i hebrwng ei weddillion i fynwent Eglwys Llanwnen. Gadawodd weddw oedranus, saith o blant, a nifer fawr o wyrion, i alaru ar ei ol. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. D. Evans, Cribyn; gweddiwyd wrth y drws gan Ficer Cribyn; a gwasanaethwyd yn yr Eglwys a'r fynwent gan Ficer Llanwnen.

MAWRTH 15, yn 45 mlwydd oed, Johnny Evans, Cross Hands, Llandyssul. Cafodd yr ymadawedig ei gymeryd ymaith yn nghanol ei

ddyddiau a'i ddefnyddioldeb, er galar mawr i'w deulu ieuanc a llu o gyfeillion. Bu yr ymadawedig am oddeutu tair blynedd ar ddeg yn gyru y cerbyd llythyrau o Landyssul i Geinewydd a dywedir na wnaeth gymaint ag un waith golli y trên. Dengys hyn ei ofal mawr a'i ymgyflwyniad i'w waith pan gofiom y ffordd arw ac ystormus oedd ganddo ar bob tywydd. Yr oedd ei garedigrwydd a'i barodrwydd i wneud cymwynas ar hyd ochr y ffordd yn adnabyddus iawn, ac ar gyfrif hyn gwnaeth trigolion Ceinewydd a'r ardal dysteb anrhydeddus iddo, yr hon ddaeth i'w law ychydig ddiwrnodau cyn ei farwolaeth. Gadawodd mewn hiraeth mawr o'i golli weddw a phedwar o blant, dwy chwaer, heblaw perthynasau ereill. Claddwyd y dydd Iau dilynol yn mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd yn y ty a'r capel gan y Parch. T. Arthur Thomas ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MAWRTH 16, yn 5 mis oed, William, anwyl blentyn David a Rachel Williams, Pantglas, Llanybyther. Claddwyd yn mynwent Capelybryn. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. D. James, Rhydybont, ac yn y capel a'r fynwent gan y gweinidog.

MANION AC HANESION.

HIGHLAND PLACE, ABERDAR.—Cynhaliwyd cyngherdd odidog yn y capel Undodaidd uchod nos Iau, Chwefror 28, gan gôr yr Eglwys, yn cael eu cynorthwyo gan rai o aelodau yr Hen Dy Cwrdd ac ereill. Perfformwyd "Josiah"—*oratorio* gan Ogden. Yr oedd y capel yn orlawn, a'r Uwch Gwnstabl (Mr. R. H. Miles) yn llywyddu. Mr. Dan

MISS MEGAN DAVIES.

Davies, L.T.S.C., oedd yr arweinydd, a gwnaeth ei waith yn benigamp. Bachgen ieuanc ydyw Mr. Davies, yn hanu o deuluoedd sydd wedi bod yn ffyddlon yn nghapel Alltplaca am flynyddau lawer. Mae ei dadcu ar ochr ei fam—Mr. David Evans, Llwynbedw, Llanybyther—er mewn gwth o oedran, yn dal o hyd yn ffyddlon at yr achos. Mae gan Mr.

Davies chwaer, sef Miss Megan Davies, sydd wedi enill enw a lle mawr yn y byd cerddorol. Hi oedd un o'r "artistes" yn y perfformiad yma. Mae galwad mawr wedi bod am dani yn ddiweddar gan bob enwad ac yn mron yn mhob tre o gylch Aberdar. "Contralto" ydyw, ac mae ganddi lais peraidd a chyfoethog dros ben. Y mae wedi bod yn cymeryd rhan mewn deuddeg o gyngherddau mawrion y flwyddyn yma yn unig. Mae yn hyfrydwch gyda ni i gael darlun o honi i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. Gyda golwg ar y gyngherdd uchod, aeth pobpeth yn mlaen yn llwyddianus iawn—yn gerddorol ac arianol. Yr oedd y côr wedi cael ei ddysgyblu yn drwyadl gan Mr. Davies; a siaradadwyd yn uchel iawn am ymdrech y côr gan y Cadeirydd a chan y gynulleidfa. Miss S. George, Organydd Highland Place, oedd wrth y berdoneg; a chariwyd allan y trefniadau gan Mr. Evan Jones, Teilo House (Trysorydd), a Mr. J. L. Rowlands, Swyddfa'r *Leader a'r Darian* (Ysgrifenydd).

GALWAD.—Deallwn fod Mr. H. H. C. Jones, o Goleg yr Home Missionary, Manchester, wedi derbyn galwad unfrydol i fugeilio Eglwys Undodaidd Hinckley, fel olynydd i'r Parch. T. J. Jenkins, yn awr o Newchurch. Brodor o Llwynrhydowen ydyw Mr. Jones, a dymunwn iddo lwyddiant mawr yn ei faes newydd.

LLWYNRHYDOWEN. — Yr oedd dydd Gwener, Mawrth 6fed yn ddiwrnod mawr a phwysig yn y lle hwn, canys ar y dydd hwnw cynaliwyd gwyl dè a chyngherdd yr Ysgol Sul. Fel y digwyddodd cafwyd diwrnod hindda ar ganol tywydd gwlyb, a'r canlyniad oedd i nifer luosog iawn ddod yn nghyd i fwynhau y danteithion. Rhoddwyd y tê gan deulu caredig Esgerddedwydd a theimla aelodau y gynulleidfa a'r Ysgol Sul yn ddiolchgar iawn i Mr. a Mrs. Davies a'r plant am y ddarpariaeth odidog wnaethpwyd ar eu cyfer. Yr wyf wedi awgrymu eisoes fod y teulu hwn yn deulu caredig ond nid yw hyny ond haner y stori. Mae yn deulu ffyddlon, talentog, diddig, a gwasanaethgar iawn yn y Llwyn. Nid oedd y wledd dê ond prawf arall o'u serch tuag at yr achos yn y lle. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod adloniadol hapus iawn yn yr Hên Gapel o dan lwyddiaeth Mr. D. Davies, Domen—mab henaf Esgerddedwydd. Cafwyd adroddiadau a chaneuon gan y plant a phedwarawdau, &c., gan bobl ieuainc y gynulleidfa. Bu yno hefyd dipyn o gystadlu mewn adrodd, canu, &c., yr hyn fu'n help mawr i godi y cyfarfod i hwyl. Beirniadwyd yn foddhaol iawn gan Mri. T. Thomas a T. G. Thomas, Bwlchyfadfa. Bydd yn dda gan y plant gael ar ddeall fod teulu Penbank wedi addawrhoi y te y flwyddyn nesaf. Sul, Chwef. 8, derbyniwyd saith o aelodau newyddion i'r eglwys hon.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Llywydd:—PARCH. E. O. JENKINS, LLWYNRHYDOWEN.

Cynhelir **CYFARFODYDD CHWARTEROL** yr uchod yn **NGHAPELYCWM**, Mawrth a Mercher, Ebrill 13 a 14, 1914.

Bydd trefn y Cyfarfodydd fel y canlyn: Nos Fawrth am 6 o'r gloch,—Gwasanaeth a dwy Bregeth. Dydd Mercher am 9.30—Pwyllgor y Gymdeithas; 10.30—Gwasanaeth a dwy Bregeth; 2—Gwasanaeth a dwy Bregeth. 6—Gwasanaeth a dwy Bregeth.

Estynir gwahoddiad gwresog gan Weinidog a Chynulleidfa Capelycwm i Weinidogion ac ereill i'r cyfarfodydd hyn. Byddai yn hwylusdod i bawb dieithriaid garent gael llety i ymohebu â'r Parch. J. Davies. Bydd cerbydau yn cwrdd a thrên 3.20 prydnawn Mawrth yn Maesycrugiau. Cesglir yn yr holl gyfarfodydd. Dymunir ar i Weinidogion y cylch gyhoeddi y cyfarfodydd y Sul blaenorol.—T. ARTHUR THOMAS, *Ysgrifenydd.*

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

"PARABL PERERIN CYMREIG O GELLIONEN I'R AIPHT A CHANAAN AC YN OL."

TRADDODIR . . . .

DARLITH

Ar y Testun uchod, gyda 50 o ddarluniau, gwisgoedd brodorol, etc., i egluro arferion y Beibl.

Ymofyner â'r **Parch. D. G. Rees, Trebanos, Pontardawe, Glam.**

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing — food for everybody. —

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool.
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham.
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London.
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester.
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry.
Sir Guy Douglas Arthur Fleetwood Wilson, K.C.B., K.C.M.G., C.C.I.E.

Authorised Capital ..	**£22,200,000**	**Subscribed Capital** ..	**£20,873,520.**
Paid up Capital ..	**£4,348,650**	**Reserve Fund** ..	**£3,700,000.**
	Deposits ..	**£93,833,580.**	

BRANCHES AND AGENCIES IN CARDIGANSHIRE AND CARMARTHENSHIRE:—

Aberayron, Aberystwyth, Aberporth, Ammanford, Brynamman, Cardigan, Carmarthen, Cross Hands, Crymmych, Drefach, Kidwelly, Lampeter, Laugharne, Llanon, Llanboidy, Llandilo, Llandyssul, Llanelly, Llanybyther, Newcastle Emlyn, New Quay, Pencader, Pontardulais, Pontrhydfendigaid, Pontyberem, St. Clears, St. Dogmael's, Tregaron, Whitland.